CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **3 Mehefin 2024**

Teitl: **Polisïau Newydd Adnoddau Dynol**

Pwrpas yr adroddiad: **I adolygu polisïau newydd a diwygiedig.**

Cefndir:
Mae'r Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth wedi bod yn parhau i adolygu, datblygu a diweddaru polisïau allweddol. Yn dilyn ymgynghoriad, mae'r polisïau canlynol wedi cael eu trafod, eu diwygio a'u cytuno gan yr undebau llafur corfforaethol cydnabyddedig:

- Polisi Absenoldeb a Chymorth Teuluol
- Polisi Gwyliau ac Absenoldebau
- Polisi Gweithio'n Hyblyg
- Atal a Rheoli Polisi Straen
- Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor (diwygiedig)

Pwrpas holl bolisïau a gweithdrefnau gweithwyr yw nodi'n glir yr ymddygiadau, y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol, sut y gellir cael cyngor a chefnogaeth a, lle bo'n berthnasol, canlyniadau peidio â chadw at y polisi a/neu'r weithdrefn. Mae cyflwyno'r polisïau hyn yn cael dim/fawr ddim effaith yn ariannol a rhagdybir y bydd yn arwain at arbed costau cyffredinol trwy leihau absenoldeb salwch a'r gost gysylltiedig o ddarparu ar gyfer yr absenoldeb hwnnw.

Argymhelliad / Argymhellion:

1. Argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Absenoldeb a Chymorth Teuluol
2. Argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Gwyliau ac Absenoldeb
3. Argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Gweithio'n Hyblyg
4. Argymell i'r Cabinet gymeradwyo Polisi Atal a Rheoli Straen
5. Argymell i'r Cabinet gymeradwyo diwygiadau i'r Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau i argymell fod Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion 1 i 5 uchod, yn amodol ar y canlynol:

Argymhelliad rhif 2, teitl y Polisi – Polisi Gwyliau ac Absenoldeb, i gynnwys caniatâi hyd at 5 diwrnod o wyliau â thâl i Oedolion sy'n Gwirfoddoli i'r Lluoedd Cadét. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i wneud cais am Wobr Aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr (gwobr Arian wedi'i chyflawni ar hyn o bryd).

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth newydd
- Cefnogi recriwtio a chadw, iechyd a lles gweithwyr, ac effeithiolrwydd gweithredol

Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn gofyn am adroddiad diweddariad ar Weithio Hyblyg yn ystod cyfarfod mis Mai 2024.

Y Cynghorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol